

RHYFEL I ROI TERFYN...



*Yn lle'r hir heddwch, yn lle'r hen ddiddanwch,
Yn lle'r holl lonyddwch a gawsom.
Y drwm sydd yn taro a'r utgorn yn seinio
A'r rhyfel yn rhuthro'n wyllt atom.*

Morgan Llwyd

*Yn y dyddiau diwethaf bydd mynydd tŷr ARGLWYDD
wedi ei osod yn ben ar y mynyddoedd
ac yn uwch na'r bryniau.
Dylifa'r holl genhedloedd ato,
a daw pobloedd lawer, a dweud,
"Dewch, esgynnwn i fynydd yr ARGLWYDD,
i deml Duw Jacob;
bydd yn dysgu i ni ei ffyrdd,
a byddwn ninnau'n rhodio yn ei lwybrau."
Oberwydd o Seion y daw'r gyfraith,
a gair yr ARGLWYDD o Jerwsalem.
Barna ef rhwng cenhedloedd,
a thorri'r ddadl i bobloedd lawer;
curant eu cleddyfau'n geibiau,
a'u gwaywffyn yn grymanau.
Ni chyfyd cenedl gleddyf yn erbyn cenedl,
ac ni ddysgant ryfel mwyach.
Tŷ Jacob, dewch, rhodiwn yng ngoleuni'r ARGLWYDD.*

Eseia 2

Litani Cymod Coventry

Er bod Coventry yn cael ei gofio fel dinas a gafodd ei fomio yn ystod yr Ail Ryfel Byd mae'r Litani Cymod hwn yn berthnasol i'n cenhedlaeth a'n dyddiau ni.

'Y mae pawb wedi pechu ac wedi syrthio'n fyr o ogoniant Duw.'

Am y casineb sy'n gwahanu cenedl oddi wrth genedl, hil oddi wrth hil, a'r hyn sy'n gwahanu pobl o haenau cymdeithasol gwahanol oddi wrth ei gilydd.

O Dad maddau.

Am y trachwant a'r blys sydd rhwng pobloedd a chenhedloedd a'r awydd am feddiannu'r hyn nad ydynt yn ei berchnogi eisoes,

O Dad, maddau.

Am y trachwant sy'n ecploetio gwaith dwylo bodau dynol ac sy'n creu anialwch ar y ddaear.

O Dad maddau.

Am yr eiddigedd sydd ynom sy'n ddi-hid am hapusrwydd a lles pobl eraill,

O Dad maddau.

Am ein hesgeulustod o gri'r anghenus ac o drueni'r rhai sydd mewn caethiwed, y digartref, a ffoaduriaid,

O Dad, maddau.

Am y chwant a'r blys sy'n dianrhydeddu cyrff dynion, menywod a phlant,

O Dad maddau.

Am y balchder sy'n ein tywys i ymddiried ynom ni ein hunain ac nid yn Nuw,

O Dad maddau.

'Byddwch yn garedig i'ch gilydd, yn dyner, gan faddau i'ch gilydd, fel y maddeuodd Crist i chi.'